# Atodiad 1: Rhestr wirio

## Camau gweithredu ar lefel ysgol/lleoliad/coleg

Dylai ysgolion/lleoliadau roi camau gweithredu ar waith ar sail ymarferoldeb a dylid eu haddasu i gyd-destunau penodol yr ysgol a lleoliad unigol. Gall y camau gweithredu canlynol gael eu harwain neu eu goruchwylio gan y corff llywodraethu neu dîm bach o gynrychiolwyr o'r cyd-destun lleol a allai gynnwys, er enghraifft, staff addysgu, gweinyddwyr yr ysgol a rhieni/gofalwyr dysgwyr yn gweithio dan awdurdod y pennaeth a'r corff llywodraethu.

<table>
<tr><th>Cam</th><th>Camau gweithredu</th><th>[Tic]</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Ailagor</td><td>1. Asesu’r mesurau diogelu sydd eisoes ar waith ac ystyried sut gellid eu cryfhau. Gallai camau gweithredu gynnwys, er enghraifft:<br><br>• asesu’r angen am lanhau gwell, gan gynnwys glanhau arwynebau sy’n cael eu cyffwrdd yn aml yn fwy rheolaidd, gan ddefnyddio cynnyrch safonol fel glanedyddion a diheintyddion<br>• asesu cynllun a chapasiti’r ysgol i gadw pellter rhwng dysgwyr a staff yn yr ystafell ddosbarth a’r tu allan iddi<br>• asesu’r mesurau sydd eisoes ar waith i gefnogi mesurau hylendid dwylo ac anadlol cadarn, gan gynnwys awyru<br>• neilltuo swyddogion cymorth cyntaf a sicrhau bod modd cael gafael arnynt.<br><br>I weld argymhellion manwl, edrychwch ar fersiwn lawn Llywodraeth Cymru o’r <u>canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau</u>.</td><td>[ ]</td></tr>
<tr><td>2. Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb, a dylai teuluoedd roi gwybod i’r ysgol os nad yw eu plentyn yn gallu bod yn bresennol ac esbonio’r rheswm am hynny, er mwyn i’r ysgol allu cofnodi presenoldeb yn gywir.<br><br>Mae canllawiau pellach ar bresenoldeb ar gael yn yr adran presenoldeb yn fersiwn lawn Llywodraeth Cymru <u>canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau.</u></td><td>[ ]</td></tr>
<tr><td>3. Ystyried <u>canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws</u> i nodi disgwyliadau a blaenoriaethau ar gyfer dysgu mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn.</td><td>[ ]</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Ailagor | **4. Ystyried yn ffurfiol sut mae lleihau cysylltiadau a chynyddu'r pellter corfforol a chymdeithasol rhwng y rheini sydd yn yr ysgol lle bo modd, a lleihau'r posibilrwydd o halogi i'r graddau mwyaf posibl o fewn yr hyn sy'n rhesymol ymarferol.**<br><br>Mae'n bwysig cofio bod tystiolaeth gref mai cadw pellter corfforol/cymdeithasol, hylendid dwylo a hylendid anadlol yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal lledaeniad y coronafeirws. Dylai staff atgyfnerthu arferion hylendid a chadw pellter cymdeithasol/corfforol yn gadarnhaol yn hytrach na stigmateiddio camgymeriadau.<br><br>Dylid glynu wrth y canllawiau gweithredol i ysgolion ar ddefnyddio gorchuddion wyneb. Er bod gorchuddion wyneb yn rhan o'r amrywiaeth o fesurau sydd ar gael, nid ydynt yn cymryd lle mesurau llawer mwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo.<br><br>I weld argymhellion manwl, edrychwch ar fersiwn lawn Llywodraeth Cymru o'r canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau. | [ ] |
| | **5. Gyda chefnogaeth eu hawdurdodau lleol, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol, pan fyddant yn dychwelyd ar ôl egwyl, pan fyddant yn newid ystafelloedd, cyn ac ar ôl bwyta, ac ar ôl defnyddio'r toiled.**<br><br>Mae pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu yn cynnwys:<br><br>• a oes digon o gyfleusterau golchi dwylo neu ddiheintio dwylo ar gael yn yr ysgol/lleoliad er mwyn i'r holl ddysgwyr a staff allu golchi eu dwylo'n rheolaidd<br>• goruchwylio dysgwyr pan fyddant yn defnyddio hylif diheintio dwylo o ystyried y risgiau sydd ynghlwm wrth ei lyncu. Dylid parhau i helpu dysgwyr ifanc a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth i olchi eu dwylo'n iawn<br>• ymgorffori'r arferion hyn yn niwylliant yr ysgol, gan osod disgwyliadau o ran ymddygiad i'w cefnogi, a helpu dysgwyr iau a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth i ddeall bod angen eu dilyn<br>• darparu peiriannau sebon awtomatig lle bo hynny'n bosibl a sicrhau bod dwylo'n cael eu sychu'n drwyadl, gan ddefnyddio tywelion papur yn ddelfrydol. Dylid osgoi peiriannau sychu dwylo pan fo'n bosibl. Dylid gwaredu tywelion papur mewn bin gyda chaead arno ac ni ddylid gadael iddo orlenwi. Dylid gwagio'r biniau bob dydd<br>• sicrhau bod cyflenwad digonol o gyfarpar fel sebon, hylif diheintio dwylo a gorchuddion wyneb/cyfarpar diogelu personol (lle bo angen). | [ ] |

I weld argymhellion manwl, edrychwch ar fersiwn lawn Llywodraeth Cymru o'r **canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau**.

**6. Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau lefelau awyru digonol.** [ ]

Gall ysgolion a lleoliadau gyfeirio at **ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar systemau awyru** a fersiwn lawn Llywodraeth Cymru o'r **canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau** i gael rhagor o argymhellion manwl.

**7. Dylai ysgolion a lleoliadau weithio gyda staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr i sicrhau bod eglurder ynghylch beth yw'r mesurau diogelu a'r trefniadau diwygiedig a sut byddant yn gweithio'n ymarferol, a bod pawb yn derbyn hynny.** [ ]

Er enghraifft, wrth ddanfon a chasglu plant. Dylid ystyried beth yw'r ffordd orau o gyfleu'r wybodaeth am drefniadau gwahanol yn y modd mwyaf clir a phriodol.

**8. Dylid gosod cynllun yr ysgol/lleoliad mewn ffordd sy'n galluogi pobl i gadw pellter corfforol a dilyn mesurau hylendid i'r graddau mwyaf posibl ar sail y canllawiau.** [ ]

Er enghraifft:

- trefnu dosbarthiadau gyda'r desgiau'n wynebu am ymlaen, gan gydnabod na fydd hyn efallai'n bosibl nac yn briodol ym mhob ysgol/lleoliad, er enghraifft i gefnogi ymarfer pedagogaidd y Cyfnod Sylfaen
- osgoi cyswllt rhwng grwpiau ar wahân gymaint ag y bo modd, gan gynnwys yn ystod egwyliau
- neilltuo ardaloedd o'r adeilad i'w defnyddio gan grwpiau cyswllt yn unig, e.e., ystafelloedd addysgu, toiledau, mannau awyr agored ar gyfer egwyliau, mynedfeydd i adeiladau
- parhau â threfniadau glanhau ychwanegol.

Dylid paratoi pob asesiad risg sy'n ymwneud ag adeiladau drwy ymgynghori â'r undebau llafur lleol. Ar ôl gwneud asesiad risg, efallai y bydd rhai ysgolion yn penderfynu bod angen gwneud mân addasiadau i'w safle, fel gosod basnau ychwanegol i olchi dwylo. Bydd hyn yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn yr ysgol/lleoliad unigol, ar sail yr amgylchiadau penodol.

I weld argymhellion manwl, edrychwch ar fersiwn lawn Llywodraeth Cymru o'r **canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau**.

| | | |
|---|---|---|
| | **9. Sefydlu cynllun gwirio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl fesurau.** | [ ] |
| | **10. Sicrhau bod y staff, y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr yn deall yn iawn na chaiff unrhyw aelod staff na dysgwr sydd â symptomau COVID-19 posibl ddod i leoliad yr ysgol, ond bod yn rhaid iddo aros gartref** a **hunanynysu**, **trefnu prawf COVID-19 a rhoi gwybod i'r ysgol am hynny.**<br><br>**Gan gefnogi'r** Rheoliadau Diogelu Iechyd, **dylai cyflogwyr ganiatáu neu alluogi unigolyn i hunanynysu os oes ganddo symptomau COVID-19, os yw wedi cael canlyniad positif am COVID-19, os yw'n byw gyda rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19, neu os yw wedi cael gwybod gan y gwasanaeth Profi, Olrhain Diogelu ei fod wedi dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19.**<br><br>**Dylai'r staff a'r dysgwyr hefyd ddeall yn llwyr beth yw'r broses y dylid ei dilyn os bydd unrhyw un yn datblygu symptomau COVID-19 yn yr ysgol. Mae'r canllawiau'n darparu set o egwyddorion i helpu ysgolion a lleoliadau i wneud hyn, ac i leihau'r risgiau maes o law.**<br><br>Dyma brif **symptomau'r** coronafeirws:<br><br>• tymheredd uchel: mae hyn yn golygu bod eich brest neu'ch cefn yn boeth wrth ei gyffwrdd (does dim angen ichi fesur eich tymheredd)<br>• peswch cyson newydd: mae hyn yn golygu pesychu'n aml am fwy nag awr, neu dri pwl neu fwy o besychu mewn 24 awr (os oes gennych chi beswch fel rheol, gallai fod yn waeth na'r arfer)<br>• colli neu newid yn eich synnwyr o flas neu arogl: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch chi arogli neu flasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.<br><br>I weld argymhellion manwl, edrychwch ar fersiwn lawn Llywodraeth Cymru o'r **canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau**. | [ ] |
| | **11 Mae polisi 'aros gartref os ydych chi'n sâl' yn orfodol ar gyfer dysgwyr, athrawon a staff ysgol sydd â symptomau COVID-19, ac mae polisïau absenoldeb salwch wedi'u diwygio yn unol â hyn.** | [ ] |